| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD<br>BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 97 – Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19-25 oed** |
| | **Detholiad penodol o 'Hiraeth', Traddodiadol** |

Gwedwch, fawrion o wybodaeth,
O ba beth y gwnaethpwyd Hiraeth,
A pha ddefnydd a roed ynddo
Na ddarfyddai wrth ei wisgo?

Derfydd aur a derfydd arian,
Derfydd melfed, derfydd sidan,
Derfydd pob dilledyn helaeth,
Ond er hyn ni dderfydd Hiraeth.

Hiraeth mawr a Hiraeth creulon,
Sydd bob dydd yn torri 'nghalon;
Pan fwyf dryma'r nos yn cysgu
Fe ddaw Hiraeth ac a'm deffry.

Fe gwn yr haul, fe gwn y lleuad,
Fe gwn y môr yn donnau irad,
Fe gwn y gwynt yn uchel ddigon,
Ni chwn yr Hiraeth byth o'r galon.